## ATODLEN 2

DIWYGIADAU I'R FFURFLEN SY'N DWYN Y TEITL "CEISIADAU PERCHEN-FEDDIANNYDD A THENANT AM GRANTIAU ADNEWYDDU TAI"

**8.** Ar ôl nodyn 93, mewnosoder —

"**93A.** Mae plentyn yn anabl at ddibenion cwestiynau 3.37, 3.37A, 3.38 os yw wedi'i gofrestru'n ddall ar gofrestr a luniwyd o dan adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 (gwasanaethau lles) neu, yn yr Alban, os ardystiwyd ei fod yn ddall ac o ganlyniad i hynny mae wedi'i gofrestru'n ddall ar gofrestr a gynheli neu ar ran awdurdod lleol yn yr Alban neu a beidiodd â chael ei gofrestru'n ddall mewn cofrestr o'r fath o fewn 28 wythnos yn union cyn dyddiad y cais. Mae plentyn yn anabl at ddibenion y cwestiynau hyn hefyd os telir lwfans byw i'r anabl iddo, neu os talwyd lwfans byw i'r anabl iddo hyd nes iddo fynd yn glaf.".